Annwyl Rieni/Warchodwr,

Dyma grynodeb o'r gwaith bydd eich plentyn yn gwneud yn ystod y tymor nesaf.

**<u>Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu</u>**

Bydd eich plentyn yn cael ei annog i ddysgu a defnyddio ystod ehangach o eirfa a chystrawennau i greu effaith fwriadol yn eu gwaith ysgrifenedig a llafar. Bydd sesiynau drilio rheolaidd, gwaith grŵp a phartner, drama a thrafodaethau dosbarth yn helpu i fagu hyder ac ymwybyddiaeth o gynulleidfa. Bydd gweithgareddau darllen yn canolbwyntio ar ddatblygu rhuglder, dealltwriaeth, uwch sgiliau darllen a datblygu ymwybyddiaeth o dechnegau llenyddol. Bydd eich plentyn yn dod yn fwy ymwybodol o wahanol ieithoedd - ffocws penodol ar Ffrangeg. Cyflwynir Saesneg ym Ml 3, gan ganolbwyntio i ddechrau ar ffoneg dwys, yna ar ddefnyddio genrau amrywiol wrth iddynt ddatblygu a meistroli'r ddwy iaith. Bydd ffocws ar batrymau sillafu mwy cymhleth, atalnodi cyson a dealltwriaeth o dechnegau ysgrifennu. *Gweler y Fframwaith Llythrennedd ar ein gwefan am ragor o <u>wybodaeth</u>.*

**<u>Mathemateg a Rhifedd</u>**

Rhif yw ein prif yrrwr ac mae'r sgiliau yma yn cael eu ymarfer yn gyson trwy brofiadau dysgu bywyd go iawn o fewn cyd-destunau megis mesur, defnyddio data, arian, algebra a geometreg. Rydym yn defnyddio llawer o offer ac adnoddau ymarferol a dulliau lluniadol er mwyn dyfnhau dealltwriaeth y plant cyn symud ymlaen at dduliau ysgrifenedig. Nid cael yr ateb yn gywir un unig sy'n bwysig – rydym yn annog y plant i drafod eu gwaith, egluro beth a wyddant neu beth helpodd. *Am wybodaeth pellach, gwelwch y fframwaith rhifedd ar wefan yr Ysaol.*

**<u>Thema</u>**

Ein thema y tymor yma yw 'Perthyn'. Byddwn yn trafod ffeithiau personol, gan nodi cred a materion o bwys i ni. Byddwn yn trafod teulu gan gasglu ffeithiau hanesyddol. Byddwn yn dechrau trefnu nifer cynyddol o ddigwyddiadau sydd wedi digwydd i ni ac aelodau'r teulu dros gyfnod o amser. Byddwn yn edrych ar yr ardal leol ac yn cymharu'r ardaloedd cyfagos. Byddwn yn edrych ar faterion llywodraethol, diwydiannol a diwylliannaol ardaloedd gwahanol yng Nghymru / y Deyrnas Unedig. Byddwn yn dosbarthu organebau byw ac yn ymchwilioi organau mewnol ac allannol dynol, e.e. y system dreulio. Byddwn yn dysgu amrywiaeth o ganeuon gan gynnwys rhai tôn gron. Byddwn yn defnyddio cyfryngau corfforol a digidol i arbrofi gyda chyfranedd wrth wneud portreadau. Byddwn yn edrych ar symbolau ffydd ac arwyddion o berthyn.



**<u>Iechyd a Lles:-</u>**

Yn ystod sesiynau ymarfer corff, byddwn yn astudio gymnasteg ac yn cyfuno symudiadau i wneud dilyniant, gan ystyried yr effaith mae ymarfer corff yn cael ar ein cyrff a'n iechyd meddwl.
Themau Jigso y tymor yma yw: Fi yn Fy Myd a Dathlu Gwahaniaethau.
Byddwn yn trafod gweithio fel tîm , cynrychioli'r dosbarth / ysgol a chyfrifoldebau tuag at eraill.

**<u>Dosbarth: Gelert</u>**

**<u>Blwyddyn 4</u>**

**<u>Pethau i'w Cofio</u>**

Llyfrau darllen adref Dydd Gwener ac yn ôl ar Dddyd Llun gyda chofnod.
Cit ymarfer corff ar Ddydd Gwener
Dillad coedlan bob yn ail Dydd Mercher.
Defnyddio Trydar (X) er mwyn rhannu gwaith neu lwyddiannau @penalltau



www.ysgolpenalltau.com ysgolpenalltau@sch.caerphilly.gov.uk @penalltau 01443 862974